

Amserlen

Penderfyniadau

Is-bwyllgor Trwyddedu

I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 18 Tachwedd 2019

Gwnaeth y Is-bwyllgor Trwyddedu y penderfyniadau canlynol ar 18 Tachwedd 2019, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: D Davies (Cadeirydd), H Thomas and J Hughes

Rhan 2

Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

LIC PAN 07/19

Penderfyniad

Cais dan Adran 117 Deddf Trwyddedu 2003 am gyflwyno Trwydded Bersonol

Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais a'r dystiolaeth ger eu bron yn ysgrifenedig ac ar lafar gan yr Awdurdod Trwyddedu, gan Heddlu Gwent a CB. Penderfynon nhw na fyddai CB yn cael Trwydded Bersonol. Derbyniodd yr Is-bwyllgor wrthwynebiad yr Heddlu oherwydd cafodd CB euogfarn ym mis Chwefror 2014 am drosedd a gyflawnwyd ym mis Medi 2011 sy'n berthnasol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac na fyddai'n dod i ben o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 tan fis Chwefror 2025. Nid oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod CB wedi dod yn berson addas a phriodol ers iddo gael ei ryddhau o'r ddalfa yn 2016. Ni fyddai rhoi trwydded bersonol i CB ar hyn o bryd yn hyrwyddo amcan trwyddedu sef atal trosedd ac anhrefn. Felly, gwrthododd yr Is-bwyllgor gais CB am Drwydded Bersonol. Roeddent yn gwerthfawrogi bod CB wedi gweithio'n galed i drawsnewid ei fywyd ond, fel Is-bwyllgor Trwyddedu, roedd dyletswydd ar y Cyngor i gynnal y gyfraith a diogelu'r cyhoedd.

Ymgynghoriad

Gweithredir gan: 18 Tachwedd 2019

Amserlen Weithredu: Ar unwaith
